Annwyl Gyfeillion,

Ysgrifennaf hyn ar frys am fod y dyddiad cau heddiw.

Credaf y dylai'r cyfrifoldeb llawn am ddarledu yng Nghymru gael ei drosglwyddo i'r Senedd.
Mae nifer o resymau am hyn gan gynnwys y canlynol:

1. Sefyllfa arbennig Cymru o ran iaith, hanes a diwylliant a'r gofyn am ddarparu gwasanaeth gyflawn yn yr iaith Gymraeg.

2. Datbylgu diwydiant a hybu a chreu swyddi ym maes darlledu a'r cyfryngau creadigol yma yng Nghymru.

3. Y sefyllfa wleidyddol gyda llywodreath newydd Boris Johnson yn Llundain yn debygol o fygwth y drefn datganoli bresennol a'r angen am lais cryf i Gymru yn y misoedd a blynyddoedd i ddod i sicrhau na chwtogir ar hawliau Cymru o fewn y DU. Hefyd i ganiatau narratif wahanol sy'n gwasanaethu holl gymunedau a phobl Cymru.

4. Effaith andwyol brecsit ar agweddau rhyngwladol a chysylltiadau diwylliannol a gwledydd eraill y Gymuned Ewropeiaidd, yn enwedig y gwledydd Celtaidd eraill, Yr Alban, Iwerddon, ac yn arbenning Llydaw a'u hawdurdodau darlledu i hybu cydweithrediad ym meysydd defnydd ieithoedd lleiafrifoedd.

5. Hybu newyddion a materion cyfoes o safbwynt Cymraeg a Chymreig sy'n bur wahanol i safbwynt y DU.

Erfyniaf arnoch i bwyso am ddatganoli llawn darlledu yng Nghymru i'n Senedd, ac anelu at sefydlu awdurdod darlledu annibynnol i Gymru.

Yn gywir,

R.B.Owen
[redacted]